Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☏ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Gofal Cymru
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd CF10 1E

17 Ebrill 2015

Annwyl Rhian

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Gofal Cymru

Cam Gofynnol 5.1

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

5.1. Datblygir rhaglen recriwtio ac arwain genedlaethol a'i rhoi ar waith i recriwtio a hyfforddi rheolwyr cartrefi gofal y dyfodol sydd â'r sgiliau a'r cymwyseddau cywir. Dylai'r rhaglen gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i achredu ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal yn awr ac yn y dyfodol a dylai eu cynorthwyo i fod yn arweinyddion ymarfer ac yn hyrwyddwyr diwylliant cadarnhaol mewn cartrefi gofal. Adroddiadau cenedlaethol blynyddol am y rheolwyr sgilgar a chymwys sydd ar gael mewn cartrefi gofal ledled Cymru, gan gynnwys effaith lefelau swyddi gwag ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn.

Mae ymateb y Cyngor Gofal i'r Cam Gofynnol hwn yn cyflwyno camau a gymerwyd yn y gorffennol, ac a gymerir yn y presennol a'r dyfodol, megis: cofrestru rheolwyr cartrefi gofal, datblygu'r fframwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol rheolwyr cartrefi gofal, a rhaglenni atgyfnerthu ar ôl cymhwyso, fel petaent wedi'u cysoni'n uniongyrchol â Cham Gofynnol y Comisiynydd.

Serch hynny, mae prinder manylion ynglŷn â'r camau y gellid, neu sy'n cael eu cymryd gan y Cyngor Gofal i fynd i'r afael â manylion penodol y Cam Gofynnol o ran recriwtio ac argaeledd rheolwyr cartrefi gofal, a'r effaith mae hyn yn ei chael ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn.

Yn hytrach, cyfeirir at y diffyg awdurdod rheoleiddiol ar gyfer datblygu, darparu a sicrwydd ansawdd rhaglenni i reolwyr gofal cymdeithasol fel rhwystr rhag sicrhau darpariaeth ddysgu addas o safon i'r sector gofal cymdeithasol. Bydd hyn heb amheuaeth yn cael dylanwad ac mae'n sefyllfa y byddai'r Comisiynydd am ei newid. Ni ddylai serch hynny, rwystro Cyngor Gofal Cymru rhag hyrwyddo rheolwyr cartrefi gofal a chwilio am ddulliau eraill i'w helpu i fod yn arweinwyr ymarfer drwy arloesi, TG, ac adeiladu perthynas barhaus â'r sector.

Am y rhesymau hyn, mae'n dda o beth y bydd y Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o gymunedau ymarfer ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal er mwyn lleihau'r arwahanrwydd a gofnodwyd ac er mwyn lledaenu'r arferion gorau, ond nid oes tystiolaeth i ddangos bod hyn yn flaenoriaeth ac yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn ei gyflawni mewn gwirionedd.

Mae'r Cyngor Gofal ar hyn o bryd yn cyhoeddi proffiliau blynyddol ar gyfer y gweithlu rheolwyr cartrefi gofal sy'n cael eu defnyddio i lywio gwaith yn y dyfodol yn y Cyngor ac ar lefelau strategol; ond nid oes asesiad ar gael o effaith lefelau swyddi gwag rheolwyr cartrefi gofal ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn.

Cam Gofynnol 5.3

Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol

5.3 Datblygir set safonol orfodol o sgiliau a chymwyseddau seiliedig ar werthoedd a'u rhoi ar waith yn genedlaethol, ar gyfer recriwtio staff gofal mewn cartrefi gofal.

Mae ymateb Cyngor Gofal Cymru i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ymwybyddiaeth glir o rôl sgiliau a gwerthoedd wrth ddatblygu cod ymarfer, a fframwaith ymsefydlu ym maes gofal cymdeithasol. Serch hynny, nid oes asesiad na gwerthusiad o effeithiolrwydd y pecynnau hyn ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol na chyfeiriad at y canlyniadau a ddymunir ar gyfer pobl hŷn. Oherwydd y diffyg hwn, dylid gwella'r ymateb drwy fod yn barod i holi a yw fframweithiau ac adnoddau ar-lein cyfredol y Cyngor Gofal yn gymesur â sicrhau ansawdd bywyd preswylwyr a thrwy herio'r diwylliant gofal seiliedig ar dasgau a ddisgrifir yn 'Lle i'w Alw'n Gartref'.

Gellid gwella'r ymateb hefyd drwy ymrwymo i ddatblygu'r pecyn aciwtedd, sydd ar hyn o bryd wedi'i anelu at bobl sy'n ystyried ymuno â'r sector – o ran ei botensial i'w ddefnyddio gan gyflogwyr a rheolwyr cartrefi gofal i'w helpu i recriwtio staff gofal mewn cartrefi gofal.

Mae'r Cyngor Gofal yn datgan yn eglur, fel rhan o'r broses recriwtio, nad oes ganddo'r awdurdod i orchymyn defnyddio cymwyseddau seiliedig ar

werthoedd a sgiliau gorfodol. Derbynnir hyn ond byddai'r ymateb yn well petai'n cynnwys datganiad mwy eglur am sut mae CGC yn prysur chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod hyn yn bwrw gwreiddiau mewn arferion gofal cymdeithasol, mewn cartrefi gofal yn sgil ei waith parhaus, a thrwy gydweithredu â chomisiynwyr ac AGGCC.

Ar ben hynny, a derbyn rôl CGC i sicrhau bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru'r sgiliau a'r cymwysterau cywir i weithio'n unol â safon broffesiynol uchel, mae'r Comisiynydd yn disgwyl i CGC gyflwyno achos busnes strategol i gynnwys sgiliau gorfodol a chymwyseddau sy'n seiliedig ar werthoedd ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â mynd ar drywydd hyn fel arfer da.

Cam Gofynnol 5.4

Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol

5.4 Datblygir rhaglen ymsefydlu genedlaethol orfodol a rhaglen hyfforddi barhaus i staff gofal a'i rhoi ar waith. Dylid datblygu hon o fewn fframwaith gwerthoedd a dylai gynnwys;

- Anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw gyda dementia
- Diogelu oedolion, esgeulustod emosiynol a 'digwyddiadau byth'
- Sut i godi pryderon
- Cyfathrebu da a dulliau gwahanol o gyfathrebu i'r rhai sy'n byw gyda dementia a /neu nam ar y synhwyrau
- Cefnogi heb analluogi
- Hawliau a haeddiannau pobl hŷn
- Gofal, tosturi, caredigrwydd, urddas a pharch

Mae ymateb y Cyngor Gofal i'r Cam Gofynnol hwn yn datgan yr hyn sydd ar hyn o bryd yn y Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol, ond nid yw'n gwneud mwy na hynny ac nid yw'n ymateb i gamau gofynnol y Comisiynydd o ran: anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn, gan gynnwys pobl hŷn sy'n byw gyda dementia; diogelu oedolion, esgeulustod emosiynol a 'digwyddiadau byth'; sut i godi pryderon; cyfathrebu da a dulliau cyfathrebu gwahanol â'r rheini sy'n byw gyda dementia a / neu

nam ar y synhwyrau; cefnogi heb analluogi, hawliau a haeddiannau pobl hŷn; gofal, tosturi, caredigrwydd, urddas a pharch.

Byddai modd gwella'r ymateb drwy asesu diffygion y fframwaith ymsefydlu gofal cymdeithasol presennol o'u cymharu â Chamau Gofynnol y Comisiynydd ac anghenion datblygu gweithlu'r cartrefi gofal yn yr 21ain ganrif. Gan fod y wybodaeth sydd yn y Fframwaith Ymsefydlu ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn annigonol i gyflawni'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, tosturi, caredigrwydd, ac urddas a pharch; ni chaiff staff cartrefi gofal eu hyfforddi mewn modd a fydd yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gyson ar ansawdd bywyd.

Er cydnabod nad oes gan CGC awdurdod i orchymyn rhaglen ymsefydlu genedlaethol a rhaglen hyfforddi barhaus ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol, mae'r Comisiynydd yn disgwyl i CGC ddangos arweiniad i'r sector. Byddai datganiad eglur am y modd y mae CGC yn prysur chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu pecynnau, systemau a rhaglenni a fyddai'n galluogi'r sector cyfan i symud ymlaen i hyrwyddo ansawdd bywyd i breswylwyr yn gwella'r ymateb hwn. At hynny, byddai'r ymateb yn gryfach o gynnwys gwybodaeth am y camau y bydd CGC yn eu hystyried, gydag eraill, i fwrw ymlaen a sefydlu trawsnewid diwylliannol systematig a chadarn o ran ansawdd bywyd, a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Cam Gofynnol 6.11

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.11. Datblygir rhaglen genedlaethol, seiliedig ar gymwyseddau i sicrhau eu bod yn deall ac yn adlewyrchu yn eu comisiynu anghenion pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan gynnwys anghenion pobl sy'n byw gyda dementia.

Mae ymateb y Cyngor Gofal yn cynnig asesiad gonest o'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn: mapio tasgau allweddol a rolau gwaith i swyddogaethau a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r gwaith sydd i'w gyflawni mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Serch hynny,

nid yw'r ymateb yn cynnig amserlen na cherrig milltir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn, ac nid yw'n glir a oes cytundeb partneriaeth nac ymrwymiad clir wedi'i wneud i gydweithio â'r rheoleiddwyr a'r comisiynwyr. Mae hyn yn allweddol i lwyddiant y Cam Gofynnol gan nad oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos bod hyn yn flaenoriaeth ac yn rhywbeth y bydd y Cyngor yn llwyddo i'w gyflawni mewn gwirionedd.